



# CYNGOR LLYFRAU CYMRU BOOKS COUNCIL of WALES

Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB

T 01970 624151 F 01970 625385 e [castellbrychan@llyfrau.cymru](mailto:castellbrychan@llyfrau.cymru)

Rhyngwrwyd / Internet [llyfrau.cymru](http://llyfrau.cymru) [gwales.com](http://gwales.com) [ffolio.cymru](http://ffolio.cymru)

Prif Weithredwr/Chief Executive: *Helgard Krause*

<b>Teitl y swydd:</b>	Swyddog Prosiect Darllen yn Well
<b>Adran:</b>	Adran Datblygu Cyhoeddi
<b>Lleoliad:</b>	Castell Brychan, Aberystwyth (ystyrir ceisiadau i weithio o gartref)
<b>Band Cyflog:</b>	Graddfa 4 (pwynt 12–20)
<b>Cyflog:</b>	£22,571–£26,446
<b>Cytundeb:</b>	Cyfnod penodol hyd 31 Awst 2023
<b>Dyddiad cychwyn:</b>	1 Tachwedd 2022 neu cyn gynted â phosibl wedi hynny
<b>Oriau gwaith:</b>	37 awr yr wythnos (ystyrir ceisiadau i weithio 3–4 diwrnod)
<b>Nifer o ddiwrnodau o wyliau:</b>	22 diwrnod + 5 diwrnod braint + Gwyliau Banc
<b>Yn adrodd i:</b>	Pennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi
<b>Pwrpas cyffredinol y swydd:</b>	<p>Mae'r swydd hon yn gyfle i chi fod â rhan bwysig mewn cynllun gwerthfawr i ddarparu adnoddau darllen hamdden, sy'n cefnogi iechyd meddwl, yn Gymraeg i bobl ifanc.</p> <p>Rydym, mewn partneriaeth â'r Reading Agency, wedi darparu addasiadau Cymraeg ar gyfer y cynllun Darllen yn Well ers 2018. Bydd y llyfrau nesaf ar gyfer oedolion ifanc (yn dilyn rhai ar ddementia, iechyd meddwl ac iechyd meddwl plant) ac rydym yn chwilio am Swyddog Prosiect i weinyddu'r cynllun tan ddiwedd Mawrth 2023. Byddwch yn ganolog i'r prosiect sy'n gyfle i weithio gyda'r cyhoeddwr yng Nghymru, ac i bontio gyda chyhoeddwr y llyfrau gwreiddiol a'r Reading Agency yn Llundain. Ond yn bwysicach na dim mae'n gyfle i wneud gwahaniaeth.</p> <p><a href="http://reading-well.org.uk">Reading Well (reading-well.org.uk)</a></p>

## CEFNDIR

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi ac yn datblygu darllen yng Nghymru yw'r Cyngor Llyfrau. Rydym yn hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser drwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru, gan weithio'n aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn Aberystwyth yn 1961 ac

rydym yn gweithio gyda chyhoeddwr i feithrin talent a chynnwys newydd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol megis golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu. Rydym hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwr a llyfrwerthwyr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, ac yn rhannol o weithgareddau masnachol a gwasanaeth cyfanwerthu llyfrau ein Canolfan Ddosbarthu.

Mae'r Cyngor yn darparu cynllun pensiwn y bydd modd i'r sawl a benodir gyfrannu ato. Mae'r Cyngor Llyfrau yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed sy'n Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweithredir system oriau gwaith hyblyg ar gyfer y swydd hon.

## AM YR ADRAN

Byddwch yn gweithio yn yr Adran Datblygu Cyhoeddi sy'n gyfrifol am ddsbarthu grantiau i gynorthwyo cyhoeddi llyfrau a chylchgronau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ond mae'r prosiect hwn yn sefyll ar ei draed ei hun ac yn gwneud cyfraniad ychwanegol a phwysig i'r llyfrau sy'n cael eu noddi bob blwyddyn.

Mae'r Grantiau Cyhoeddi blynyddol yn darparu cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth eang o lyfrau a chylchgronau i oedolion a phlant (cefnogir tua 200 o lyfrau Cymraeg a 100 o lyfrau Saesneg mewn blwyddyn, a thua 16 o gylchgronau Cymraeg ac 8 o rai Saesneg).

Byddwch yn gweithio fel rhan o'r Adran Datblygu Cyhoeddi ac yn atebol i'r Pennaeth Adran, ond yn gweithio'n benodol ar y cynllun Darllen yn Well. Bydd disgwyl i'ch cynllun chi baratoi addasiadau o 20–30 o lyfrau ychwanegol, a byddwch yn gweithio gyda golygydd penodol a gweddill timau'r Cyngor a fydd yn eich cefnogi gyda'r gwaith.

Mae'r Cyngor a'r Adran yn ganolog i'r byd llyfrau yng Nghymru. Mae swyddogion yr Adran mewn cysylltiad cyson â'r cyhoeddwr, yn trafod cynlluniau ac yn annog a chynghori. Fe fydddech chi, wrth weithio ar y cynllun hwn, yn helpu i lenwi bwch mawr a phwysig yn y ddarpariaeth bresennol. I unrhyw un sydd â diddordeb gwirioneddol mewn gweld y byd llyfrau Cymraeg yn ffynnu, ac sy'n teimlo bod gan lyfrau gyfraniad pwysig i'w wneud i gefnogi ieched meddwl pobl ifanc, mae hwn yn gyfle i wneud gwahaniaeth.

## PRIF DDYLETSWYDDAU'R SWYDD

Beth fydd y Swyddog Darllen yn Well yn ei wneud?

1. Byddwch yn gweinyddu'r cynllun Darllen yn Well a gofalu bod y teitlau y cytunwyd arnynt yn cael eu cwblhau;
2. Byddwch yn cydweithio'n agos â'r cyhoeddwr a'r golygydd i sicrhau nad yw'r amserlen yn llithro;
3. Byddwch yn cysylltu â'r Reading Agency yn rheolaidd ac yn paratoi adroddiadau cynnydd rheolaidd;
4. Byddwch yn paratoi adroddiadau chwarterol i sicrhau bod y prosiect yn rhedeg o fewn y gyllideb;
5. Bydd cyfle i chi gael hyfforddiant lle bo angen;
6. Bydd cyfle i chi deithio yn achlysurol;
7. Bydd cyfle hefyd i chi wneud rhai dyletswyddau eraill yn ôl yr angen.

## **GWYBODAETH A SGILIAU AR GYFER Y SWYDD**

- Bydd gennych ddiddordeb mewn llyfrau a chyhoeddi.
- Bydd gennych brofiad o drefnu prosiect.
- Byddwch yn gyfarwydd â defnyddio'r pecynnau meddalwedd Office diweddaraf.
- Byddwch yn gyfforddus yn gweithredu o fewn cyllideb.
- Bydd gennych brofiad o baratoi adroddiadau cynnydd ac adroddiadau cyllid.
- Byddwch yn hyderus wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg.

## **IAITH GWEITHIO**

Bydd y cyfan o waith mewnol y Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfran dda o'r gwaith cyfathrebu gyda'r cyhoeddwy. Ar y llaw arall bydd y cysylltiadau gyda'r Reading Agency a'r cyhoeddwy gwreiddiol, yn Saesneg. Felly fe fydd angen i chi fod yn hyderus wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg er mwyn gallu gwneud y swydd hon.

## **CYSYLLTIADAU A CHYFATHREBU**

<b>Mewnol</b>	<b>Natur y cyswllt</b>
Prif Weithredwr	Ymateb i geisiadau am wybodaeth a ffigurau.
Pennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi / Rheolwr llinell	Derbyn cefnogaeth a chynlluniau gwaith, cyfarfod ac adrodd ar brosiectau.
Cynorthwydd Gweinyddol yr Adran Datblygu Cyhoeddi	Rhoi tasgau penodol i'r Cynorthwydd megis prosesu taliadau.
Y Tîm Golygyddol	Cyfathrebu â nhw'n rheolaidd ynglŷn â gwaith Golygydd y prosiect.
Yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	Cysylltu â nhw i drafod cyfleoedd i gydweithio er mwyn hyrwyddo'r llyfrau.
Yr Adran Gyfathrebu	Cysylltu â nhw i drafod hyrwyddo'r cynllun yn ôl y galw.
Staff yr Adran Gyllid	Monitro'r sefyllfa ariannol yn gyson a sicrhau bod yr Adran Gyllid yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyllideb; prosesu taliadau.
Staff y Ganolfan Ddosbarthu	Cydweithio, trafod amserlenni cyhoeddi a rhannu gwybodaeth.
Gweddill staff y Cyngor	Cydweithio a rhannu gwybodaeth am unrhyw gynlluniau, datblygiadau neu newidiadau a allai effeithio ar waith adrannau eraill y Cyngor Llyfrau, e.e. yr Adrannau Gwybodaeth, Golygyddol neu Ddylunio.

<b>Allanol</b>	
Y cyhoeddwr	Cyswllt rheolaidd iawn i sicrhau bod pob agwedd ar y gwaith yn cadw at y cynllun a'r amserlen y cytunwyd arnynt.
Y Reading Agency	Cyswllt rheolaidd iawn i sicrhau eu bod nhw'n gwybod am bob datblygiad a newid, a'n bod ninnau'n ymwybodol o'u cynlluniau hwythau o ran hyrwyddo'r cynllun a threfnu cynlluniau eraill yn y dyfodol.

### CYFRIFOLDEBAU

Am bobl: Cydweithio â'r golygydd a'r gweinyddydd.

Am gyllideb: Trefnu cyllideb y prosiect o ddydd i ddydd.

Am offer neu stoc: Na

### GWNEUD PENDERFYNIADAU / DATRYS PROBLEMAU / YMREOLAETH

Bydd Pennaeth yr Adran yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Wrth i chi gyfarwyddo â'r swydd a dod yn fwy hyderus, byddwch yn gallu gwneud penderfyniadau er mwyn datrys anawsterau o ddydd i ddydd. Y Pennaeth a'r Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniadau mwy pellgyrhaeddol.

### GWNEUD CAIS

Ar gyfer gwneud cais, anfonwch CV a llythyr yn egluro pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd. Dylai eich CV nodi enwau a chyfeiriadau dau berson y gellir cysylltu â hwy am dystiolaeth bellach. Os yw'r ymgeisydd mewn swydd ar hyn o bryd, dylai'r cyflogwr presennol fod yn un o'r canolwyr.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn **canol dydd ddydd Llun, 3 Hydref**, a dylid eu hanfon:

Yn electronig at [swyddi@llyfrau.cymru](mailto:swyddi@llyfrau.cymru) neu drwy'r post at y Prif Weithredwr, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB. Ffôn: (01970) 629541.

Cynhelir y cyfweiliadau yn ystod wythnos 10 Hydref 2022.

**Medi 2022**